# Cenn@d


MEHEFIN 15 2022 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 68


# Croesawu plant a'u teuluoedd unwaith eto i babell yr eglwysi yn Eisteddfod yr Urdd

Wedi dwy flynedd o eisteddfota rhithiol, a thair blynedd ers Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd, bu'n braf cael cyfarfod wyneb yn wyneb eto ar gae ar gyrion Dinbych. Gyda mudiad yr Urdd eleni yn dathlu ei ganmlwyddiant, gwnaed ymdrech arbennig i drefnu gŵyl gofiadwy, â thri pafiliwn yn llawn bwrlwm a thri llwyfan perfformio ar y maes yn ogystal. Bu'r weledigaeth o gynnal arbrawf newydd gyda gŵyl Triban yn llwyddiant, gyda cerddoriaeth fyw ar y maes tan yn hwyr y nos. Llongyfarchiadau i bawb am y trefniadau, yn bwyllgor canolog a llu o wirfoddolwyr yn lleol.

O ran yr elfennau ffydd, dechreuwyd yr wythnos gydag oedfa yng Nghapel Mawr Dinbych, a'r capel yn gyfforddus lawn. Fe'n croesawyd gan y gweinidog, y Parch Ddr Andras Iago, a chafwyd oedfa fendithiol o dan arweiniad plant ac ieuenctid y fro, aeth â ni ar daith hanesyddol oedd yn cwmpasu can mlynedd o negeseuon Heddwch ac Ewyllys Da. Mae ieuenctid Cymru wedi bod ar flaen y gad ers can mlynedd yn cyhoeddi ffordd heddwch a thangnefedd ar gyfer ein byd, a'r neges honno'n cael ei chyfieithu i gant o ieithoedd a'i hanfon i bedwar ban byd erbyn hyn.

Bu hefyd yn braf cael tystiolaeth Gristnogol ar brif faes y brifwyl, ac yn ôl yr arfer bu Cytûn, Cyngor yr Ysgolion Sul a Chymorth Cristnogol yn cydweithio i gynnal stondin lawn prysurdeb a gweithgarwch.



Lansio adnodd newydd ar ysbrydolrwydd Cristnogol gyda'r Eglwys Fethodistaidd

O ran gwaith plant, roedd wyth bwrdd / gorsaf gweithgaredd yno, yn cynnwys bwrdd Lego, peiriant gwneud bathodynnau, creu ffenest liw, taflenni lliwio a crefft, Jenga, Connect 4 mawr, gwneud breichledau a bwrdd clai. Yn ogystal, roedd fferins a diodydd oer yn cael eu rhannu yn rhad ac am ddim yn ystod yr wythnos.

Bob dydd am 11 o'r gloch cynhaliwyd oedfa fer, yn cynnwys darllen Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd, a gweddi heddwch wrth i ni gofio am sefyllfa enbyd trigolion Wcráin.





Bwrlwm y gweithgaredd yn ystod yr wythnos

*(parhad ar y dudalen nesaf)*


Cael gwared ag oedfa'r hwyr: dechrau'r diwedd neu gyfle newydd? **Tudalen 4**

Wythnos Cymorth Cristnogol Llanbedr Pont Steffan a'r Cylch **Tudalen 5**

Dathlu yng Nghaerfyrddin! **Tudalen 7**

## *Croesawu plant a'u teuluoedd unwaith eto i babell yr eglwysi yn Eisteddfod yr Urdd*

*(parhad o dudalen 1)*

Bu staff Cymorth Cristnogol hefyd wrthi'n brysur yn creu murlun anferth yn dangos amrywiaeth byd Duw, ac mae hwnnw bellach ar ei ffordd i'r gadeirlan ym Mangor fel rhan o arddangosfa gelf. Bu nifer o ysgolion Sul lleol hefyd yn creu murluniau ymlaen llaw, ac roedd y rhain i'w gweld yn addurno waliau'r babell yn ystod yr wythnos. Mae ein diolch yn fawr hefyd i'r holl wirfoddolwyr o blith ysgolion Sul y fro a fu gyda ni'n croesawu pawb i'r babell ac yn helpu i gynnal y gwahnaol weithgareddau crefft. Bydd y gweithgareddau hyn eto'n cael eu cynnal ym mhabell yr eglwysi yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd, ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron. Felly, os byddwch yn mynychu'r gwyliau hyn yng nghwmni plant, cofiwch fod 'na ddigon o bethau i ddiddanu'r rhai rhwng 3 a 15 oed yn y babell, tra bydd 'na baned a theisen gri ar gyfer rhieni a gofalwyr.




Croesawu Andrew Sully i mewn i'r stondin er mwyn diolch iddo

Yn ystod yr wythnos yn Ninbych bu'n braf cael croesawu'r Parch. Andrew Sully, ficer ardal Llandudno, atom. Roedd ef wedi bod yn brysur yn cerdded o gwmpas cestyll gogledd Cymru er mwyn codi arian at Gymorth Cristnogol. Cafodd ei groesawu gan Llinos Roberts, a derbyniodd ddiolch am yr holl waith gan Nan Wyn Powell Davies.

Cafwyd sawl sgwrs adeiladol hefyd gan arweinwyr eglwysig, a braf oedd cael cwmni Aled Edwards a Gethin Rhys o Cytûn yn y babell.

Cawsom ddigwyddiad arbennig hefyd o dan nawdd yr Eglwys Fethodistaidd, lle lansiwyd adnodd newydd, dwyieithog, ar ysbrydolrwydd Cristnogol.

Yn ôl yr arfer, roedd stondin lyfrau eang yno hefyd, a chafwyd degau o sgyrsiau yn ystod yr wythnos gan arweinwyr gwaith plant ac ysgolion Sul. Bu treulio wythnos yn yr eisteddfod yn fodd i gadarnhau ein hofnau, sef bod llawer o waith da wedi dod i ben yn ystod y cyfnod clo, a llawer o arweinwyr wedi penderfynu rhoi'r gorau iddi. Diolch am bob sgwrs gadarnhaol a gafwyd hefyd, lle roedd rhieni ac arweinwyr yn mynegi dyhead i gychwyn gwaith newydd, boed yn glwb ar ôl ysgol, oedfa deuluol anffurfiol a sawl syniad creadigol arall. Bydd Aled Davies yn crynhoi rhai o'r awgrymiadau hyn mewn erthygl ar gyfer *Cenn@d* yn ystod yr wythnosau nesaf.




Detholiad o'r adnoddau gan Gyhoeddiadau'r Gair oedd ar werth ar y stondin